# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Date and Time

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 9 MAWRTH, 2016**

Lleoliad

**Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(DISTRIBUTED 1/3/16)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Jason Humphreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Gavin Buckley | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| David Mclean | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Peter Lunt Williams | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd David Richardson | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Gethin Glyn Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Cynghorydd Michael Sol Owen | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION 1 - 3

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2015, fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD Y GWASANAETH MORWROL 4 - 11

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 12 Hydref 2016 yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 14/10/15

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Jason Humphreys (Cyngor Gwynedd), ynghyd â Gavin Buckley (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Sefydliad y Bâd Achub).

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet – Economi)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Arthur Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**YMDDIHEURIADAU:** David McLean (Buddiannau Perchnogion Tir).

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**2. IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Selwyn Griffiths yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am y flwyddyn 2015/16.**

**3. CROESO**

Estynnwyd croeso i Gavin Buckley, Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog ac Arthur Jones, Uwch Swyddog Harbyrau i'w cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4 Mawrth, 2015, fel rhai cywir.

**6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR**

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Y bwriedir ehangu/datblygu'r wefan i gynnwys mwy o wybodaeth forwrol;
- Bod 140 o angorfeydd blynyddol o gymharu â 157 yn 2014, oedd yn adlewyrchu'r economi ehangach;
- Yr edrychir ar y sustemau cofrestru ynghyd â ffioedd yn ystod y Gaeaf;
- O ran y Cod Diogelwch Morwrol, y byddai'r Uwch Swyddog Harbyrau yn ei adolygu cyn i'r awdurdod annibynnol a benodwyd, sef Harbwr Caernarfon ei archwilio. Nodwyd bod y Cod yn rhoi arweiniad ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod diogelwch defnyddwyr yn bwysig i'r Cyngor;

- Y gwerthfawrogir sylwadau ar gynnwys y Cod gan yr aelodau;
- Bod y gwasanaeth yn awyddus i ddatblygu Mesuryddion Perfformiad mewn perthynas â rheolaeth yr harbyrau ac y gwahoddir syniadau neu awgrymiadau cychwynnol gan yr aelodau;
- Bod gwaith wedi ei wneud i ymateb i 1 Rhybudd i Forwyr a oedd mewn grym, sef gosod bwlb newydd yn llusern y Bwi Tramwyo. Gydag un rhybudd arall mewn grym oherwydd bod golau ar bontŵn *Madog Yacht Club* wedi diffodd a byddai'r Cyngor yn fodlon cynorthwyo gyda'r gwaith;
- Bod cyfnod secondiad yr Harbwr Feistr wedi ei ymestyn tan ddiwedd Hydref 2015 pryd adolygir y swydd;
- Nodwyd bod cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr (tymhorol) wedi eu hymestyn hyd at 31 Rhagfyr er sicrhau ei fod yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Porthmadog ac Abermaw;
- Y gwaredwyd llongddrylliad a oedd yn achosi perygl ac asesir 2 gwch arall cyn penderfynu os byddai angen gosod rhybudd ar y cychod;
- Yr achoswyd difrod i wifren drydan wrth dynnu cwch hwylio o'r llithrfa, adroddwyd i'r HSE ar y digwyddiad ond nid oedd angen iddynt gynnal archwiliad. Nodwyd y pwysleisiwyd i staff yr angen i wneud asesiadau risg cyn ymgymryd â gwaith o'r math yma;
- Bod sefyllfa incwm yr Harbwr yn niwedd blwyddyn ariannol 2014-15 yn galonogol a bod tanwariant o £29,276.
- Y rhagwelir y byddai gorwariant o oddeutu £1,400 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol;
- Y buddsoddwyd mewn sustem teledu cylch gyfyng newydd i'r harbwr;
- Archwiliwyd yr angorfeydd a rhagwelir bod costau o oddeutu £3,000 i wneud gwaith arnynt ac y gobeithir cwblhau'r gwaith cyn y Nadolig;
- Y bwriedir cyfnewid tanc disel coch Harbwr Aberdyfi gyda thanc disel yr Harbwr er mwyn cynyddu capasiti storio;
- Bod nifer o weithgareddau wedi eu cynnal dros yr Haf. Bwriedir cynnwys rhestr digwyddiadau ar gyfer Haf 2016 yn yr adroddiad a gyflwynir i'r cyfarfod nesaf a gofynnodd i aelodau ei hysbysu o unrhyw weithgareddau er mwyn gallu eu cynnwys yn yr adroddiad.

Manylodd yr Uwch Swyddog Harbyrau ar y rhaglen waith cynnal a chadw a gofynnwyd i aelodau hysbysu'r gwasanaeth o unrhyw waith arall sydd angen ei wneud.

Yn ystod y cyfarfod ymatebwyd i sylwadau gan yr aelodau gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig fel a ganlyn:

- Bod Cwch y Dwyfor yn cael ei ddefnyddio i osod cymhorthion mordwyo ond gyda'r cwch yn dod i ddiwedd ei oes asesir opsiynau o ran ymgymryd â'r gwaith i'r dyfodol;
- Yr hysbysir Dŵr Cymru nad oedd eu bwi yng Nghricieth yn y man cywir, ac efallai byddai'r gwaith yn gallu cael ei wneud pan fo teclyn monitro yn cael ei osod ar Fwi Archwilio Cricieth i fesur lefelau yn dilyn derbyn Rhybudd i Forwyr;
- Y byddai'n codi'r mater o ran rheoliadau talu cyflog cyntaf y Cymhorthion efo'r swyddogion priodol;
- O ran recriwtio, y derbynnir ceisiadau niferus gan unigolion oedd newydd adael coleg pan fo'r dyddiad cychwyn swydd cymhorthydd yn dechrau Mehefin ond ddim gymaint pan fo'r swydd yn cychwyn yn dechrau Ebrill. Nodwyd y dilynir trefniadau'r Cyngor o ran penodi unigolion ac edrychir ar y dull y hysbysebir y swyddi;
- Y byddai'n gadael yr aelodau wybod unwaith gwneir penderfyniad o ran swydd yr Harbwr Feistr;
- Bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Ymgynghorol wedi newid o ran traethau ond bod y wybodaeth berthnasol ar gael i'r aelodau a byddai'n fodlon mynychu cyfarfodydd eraill i drafod y materion traethau;

- Bod ymateb Cymhorthion Traethau i ddigwyddiad ar y môr lle galwyd Gwylwyr y Glannau a'r Bad Achub yn gwbl annerbyniol a gofynnodd i gynrychiolydd Sefydliad y Bad Achub i'w hysbysu o'r manylion;
- O ran unigolyn yn trigo ar gwch ar y llithrfa, y bwriadai'r unigolyn symud yn fuan wedi trwsio'r cwch. Edrychir ar safleoedd arall posib i symud y cwch oddi ar y llithrfa a gofynnir i aelodau adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau pellach yn cynnwys yr unigolyn.

**7. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 9 Mawrth, 2016.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.35pm a daeth i ben am 6.45pm

______________________________

**CADEIRYDD**

# *Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog*
# *Harbour Consultative Committee*

***09 Mawrth / March 2016***

***Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Crynodeb o'r eitemau i'w trafod.***

***Maritime and Country Parks Unit – Summary of items for discussion.***

1. ***Cod Diogelwch Harbyrau / Port Marine Safety Code***

    - Derbyn sylwadau Aelodau ar y Cod Diogelwch Harbyrau / Receive observations of Members on the Port Marine Safety Code.

    - Materion yn codi ynglyn a Cod Diogelwch Harbwr / Matters arising relevant to the Port Marine Safety Code

    - Gwaredu cwch llongddrylliad/ Disposal of Wreck

2. ***Mordwyo ac Angorfeydd***
   ***Navigation and Moorings***

    - Cymhorthion Mordwyo / Aids to Navigation
    - Archwiliadau Tŷ'r Drindod / Trinity House Inspections
    - Bwiau Parth Traethau / Beach Zone Markers
    - Cynnal Angorfeydd 2016 / 2016 Mooring Maintenance

3. ***Materion Harbwr***
   ***Harbour Issues***

    - Cais Consesiwn Lluniaeth Ysgafn / Light Refreshments Concession Application
    - Teledu Cylch Gyfyng /CCTV

4. ***Cyllidebau Harbyrau***
   ***Harbour Budgets***

    - Targedau Cyllideb Cyfredol 2015-16 / 2015-16 Budget Targets
    - Gwariant ac Incwm Cyfredol at Diwedd Chwefror / Current Expenditure and Income to end of February
    - Adolygiad Chwarter Tri / Third Quarter Review
    - Ffioedd Angorfeydd Arfaethedig 2016 Proposed Fees and Charges

5. ***Staff Harbwr / Harbour Staff***

    - Trefniadau staff Gwanwyn/Haf 2016 – Spring/Summer Staff Arrangements 2016
    - Rhaglen Waith Cynnal a Chadw Gwanwyn / Spring Maintenance Works Programme

6. ***Ymgynghoriad Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales Consultation***

# *Harbwr Porthmadog Harbour*
# *2016/17*

| | 2015-16 | 2015-16 | 2016-17 | 2016-17 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Lleol Local Ex. VAT 1%** | **Eraill Others Ex.VAT 1%** | **Lleol Local Ex. VAT 1%** | **Eraill Others Ex.VAT 1%** | |
| Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch) | **32.38** | **33.66** | **32.70** | **34.00** | Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels) |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1 | **318.24** | **392.37** | **321.42** | **396.29** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2 | **296.50** | **372.80** | **299.47** | **376.53** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3 | **274.74** | **348.86** | **277.49** | **352.35** | Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1 | **286.17** | **359.74** | **289.03** | **363.34** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2 | **264.41** | **337.99** | **267.05** | **341.13** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2 |
| Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3 | **242.66** | **318.41** | **245.09** | **321.59** | Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1 | **186.21** | **230.75** | **188.07** | **233.06** | Drying Mooring + Harbour Dues Area 1 |
| Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3 | **142.71** | **187.25** | **144.14** | **189.12** | Drying Mooring + Harbour Dues Area 3 |
| | | | | | |
| Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest | **42.84** | **43.70** | **44.14** | **44.14** | Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest |
| | | | | | |
| ***Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod*** | | | | | ***Visiting Vessels – Daily or part of day*** |
| Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd | **5.00** | **-** | **5.00** | **-** | Gwynedd Council Harbour/Marina Clients |
| Pob Cwch Ymweld Arall | **-** | **6.67** | **-** | **6.67** | All Other Visiting Vessels |
| | | | | | |
| ***Ardal 4 Borth-y-Gest*** | | | | | ***Area 4 Borth-y-Gest*** |
| Pris y fedr am flwyddyn<br>Angorfeydd ar gael i rhai sydd yn breswyl yn barhaol, ac yn llawn amser yng Ngwynedd | **18.70** | **33.66** | **18.89** | **34.00** | Price per meter per annum<br>Mooring fees available for individuals who reside in Gwynedd permanently and full time |
| | | | | | |
| Cychod Masnachol (Cofrestredig)<br>Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod | **0.65** | **0.65** | **0.66** | **0.66** | Commercial Vessels (Registered)<br>Price per G.R.T per day or part of day |
| | | | | | |
| Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr | **1,418.59** | **-** | **1,432.78** | **-** | Park and Launch License – max 50 vessels |
| Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau | **-** | **-** | | **-** | Launching fees – as per beach launching fees |
| Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% Tollau Harbwr | **150.10** | **-** | **151.60** | **-** | Vessels on winter moorings + 25% Harbour Dues |
| | | | | | |
| Diddymu cais angorfa. Gorddewisol | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | **Rheol 1/18** | **Rule 1/18** | Cancellation of mooring (Discretionary) |

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2016 – 31/03/2017**

**Eithrio TAW / Exclusive of VAT**

| **Ffi Adnewyddiad** (Trwyddedau Bach) | 2016/17 | **Renewal Fees** (Small Permits) |
|---|---|---|
| Ail-cofrestru Blynyddol | £25.00 | Annual Re-registration |
| **Ceisiadau Llestr Newydd** (Trwyddedau Mawr a Bach) | | **New Vessel Applications** (Large and Small Permits) |
| Cofrestru Blynyddol | £33.33 | Annual Registration |
| **Ffi Lansio** | | **Launching Fees** |
| Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol<br>Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio) | £8.33<br>£10.83 | Daily launch – General Slipways/Beaches<br>Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking) |
| Tud. 6 Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth)<br>Cynnwys Ffi Cofrestru | £116.67 | Annual Launching Permits (1 April – 31 March)<br>Inclusive of Registration Fee |
| Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.<br>In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches. | | |
| **Trosglwyddo / Ailddodiad** | | **Transfer / Replacement** |
| Ceisiadau drwy'r post yn unig i Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli | £33.33 | Postal application only to the Council Maritime Office in Pwllheli |
| **Cychod llai na 10 HP** | | **Vessels under 10 HP** |
| Ffi Cofrestru Blynyddol – Ceisiadau Mewn Person yn Unig<br><br>Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio | £20.83 | Annual Registration Fee – In Person Application Only<br><br>At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection |

## Chwyddiant ar Incwm 2016-17 - Cyllideb Rhan 1

| | Gwariant | Gwariant | Chwyddiant Gwariant | Gwariant Terf | Gwahaniaeth mewn £ | Gwahaniaeth mewn % | Cynnydd £ Targed | Targed Terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ | £ | % | £ | £ |
| **Hafan** | 573,760 | 576,800 | 3,800 | 580,600 | 6,840 | **1.19%** | -15,610 | -1,331,600 |
| **Traethau** | 359,260 | 358,940 | 2,600 | 361,540 | 2,280 | **0.63%** | -1,320 | -209,950 |
| **Cyfanswm Harbyrau** | 273,070 | 272,780 | 2,210 | 274,990 | 1,920 | **0.70%** | -1,480 | -239,640 |
| **Doc Fic** | 139,060 | 138,500 | 750 | 139,250 | 190 | **0.14%** | -290 | -217,380 |
| **Padarn** | 165,260 | 165,510 | 570 | 166,080 | 820 | **0.50%** | -790 | -155,780 |
| **Glynllifon** | 70,160 | 70,460 | 620 | 71,080 | 920 | **1.31%** | -760 | -64,370 |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Protected Sites Team / Tîm Safleoedd Gwarchodedig
Maes y Ffynnon
Bangor
LL57 2DW
Ebost/Email:
morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn/Phone: 0300 065 3000

CORFFORAETH ... GWYNEDD
ADRAN ECONOMI A CHYMUNED
25 JAN 2016
UNED MORWROL A PARCIAU GWLEDIG
RHIF TRACIO

19 Ionawr 2016

Annwyl Syr/Fadam

**YMGYNGHORIAD AR ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG ARFAETHEDIG AR GYFER LLAMHIDYDDION YR HARBWR AC ARDALOEDD GWARCHODAETH ARBENNIG ARFAETHEDIG NEWYDD AC ESTYNEDIG AR GYFER ADAR Y MÔR**

Mae nifer o ardaloedd môr o amgylch Cymru dan ystyriaeth fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) arfaethedig ar gyfer nifer o rywogaethau o adar y môr.

Ardaloedd o dir neu fôr yw ACA ac AGA y nodwyd eu bod o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. O dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r UE 1992, a Chyfarwyddeb Adar Gwyllt yr UE 2009, mae'n ofynnol i bob aelod-wladwriaeth UE ddynodi ACA ac AGA a rhoi mesurau ar waith i sicrhau cadwraeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau mae'r safleoedd wedi'i dynodi ar eu cyfer.

Fel rhywun a allai fod â diddordeb yn yr ardaloedd dan sylw, rydym yn ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad trwy ddweud eich barn wrthym. Rydym yn ymgynghori ar chwe chynigiad:

- ACA bosibl North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol;
- ACA bosibl West Wales Marine / Gorllewin Cymru Forol;
- ACA bosibl Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren;
- AGA arfaethedig Angelsey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn (estyniad arfaethedig i AGA Ynys Feurig, Cemlyn Bay and The Skerries sydd eisoes yn bodoli);
- AGA arfaethedig Northern Cardigan Bay /Gogledd Bae Ceredigion.
- AGA arfaethedig Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro (estyniad arfaethedig i AGA Skokholm and Skomer sydd eisoes yn bodoli).

Mae manylion llawn pob un o'r cynigion hyn ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k. Ar ddiwedd y llythyr hwn, ceir map crynodeb sy'n dangos lleoliad yr ardaloedd.

Ymhlith y wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan mae papur ymgynghoriad sy'n esbonio'n llawn ynglŷn â beth mae'r ymgynghoriad a sut i ymateb iddo, a mapiau manwl o ffiniau pob safle arfaethedig. Rydym hefyd wedi manylu ar y rhesymau pam ein bod yn ystyried bod yr ardaloedd hyn yn gymwys i'w dynodi fel ACA a AGA, ac rydym wedi darparu rhai

Tŷ Cambria • 29 Heol Casnewydd • Caerdydd • CF24 0TP
Cambria House • 29 Newport Road • Cardiff • CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English



JNCC
Joint Nature Conservation Committee

cwestiynau ac atebion ac amrywiaeth o wybodaeth dechnegol gefnogol arall, gan gynnwys amcanion cadwraeth drafft ar gyfer y safleoedd ac asesiadau o'u heffaith reoliadol bosibl.

Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu a ddylid dynodi ACA a AGA yng Nghymru a dyfroedd glannau Cymru, a hyd yma ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau o'r fath mewn perthynas â'r safleoedd hyn. Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru a byddwn yn adrodd iddynt ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried holl ymatebion yr ymgynghoriad a dderbyniwyd, ond sylwch dim ond ystyriaethau gwyddonol perthnasol y gall Gweinidogion eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dynodi ACA ac AGA ai peidio. Gall gwybodaeth a barn ar ystyriaethau economaidd a chymdeithasol helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol am sut ddylid rheoli'r ardaloedd, ond ni allant ddylanwadu ar benderfyniadau o ran dynodi ACA ac AGA neu bennu eu ffiniau.

Mae rhai o'r safleoedd hyn yn gorwedd yn rhannol yn nyfroedd tiriogaethol Cymru ac yn rhannol yn nyfroedd alltraeth y DU y tu hwnt i'r terfyn Môr Tiriogaethol 12 môr-filltir. Llywodraeth y DU a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU (JNCC) sydd yn gyfrifol am safleoedd yn nyfroedd alltraeth y DU. Mae CNC a JNCC yn cyd-weithio ar y safleoedd hyn, ac felly adroddir ar yr ymgynghoriad ar y cyd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Efallai y byddwch hefyd yn derbyn gohebiaeth oddi wrth y JNCC ynglŷn ag ardaloedd arfaethedig eraill yn nyfroedd Lloegr, Gogledd Iwerddon, a dyfroedd alltraeth y DU, ond rydym wedi ceisio osgoi dyblygu gymaint â phosibl. **Mae'r papur ymgynghori ar wefan CNC yn cynnwys manylion llawn am sut i ymateb a ble i anfon eich ymateb. Sylwch nad oes angen ymateb i CNC yn ogystal â'r JNCC ynghylch unrhyw un o'r safleoedd uchod, oherwydd bydd y ddau sefydliad yn cydweithio'n agos, a chydag asiantaethau cadwraeth statudol eraill y DU, i adolygu ymatebion yr ymgynghoriad a pharatoi ein hadroddiadau i'r Llywodraeth**.

Os hoffech gopïau papur o unrhyw rai o'r dogfennau ymgynghori ar ein gwefan, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cychwynnol ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk neu ffoniwch 0300 065 3000. Hefyd mae croeso i chi gysylltu â'ch swyddfa CNC leol.

Mae'n rhaid i ymatebion i'r ymgynghoriad fod yn ysgrifenedig, a gallant fod yn Gymraeg neu Saesneg. Y ffordd orau i ymateb yw trwy ddefnyddion ein ffurflen ymateb ar-lein syml (gan ddilyn y ddolen o dudalen yr ymgynghoriad ar ein gwefan) Mae'r ffurflen ar-lein yn caniatáu i chi ddarparu ymateb cryno, neu ymateb yn fanwl i gwestiynau'r ymgynghoriad, gan gynnwys atodi dogfennau ychwanegol os bydd angen. Os na allwch ymateb arlein, gallwch ymateb trwy e-bost neu trwy lythyr i'r cyfeiriad ar frig y llythyr hwn.


Mae'n rhaid derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn hanner nos **Ebrill 2016 ar yr hwyraf**, y dyddiad pan ddaw'r cyfnod ymgynghori i ben.

**Er budd tryloywder a gweithredu agored, sylwch y gall pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn ynghyd ag enwau'r holl ymatebwyr (ond nid eu cyfeiriadau neu unrhyw wybodaeth bersonol arall) fod ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd ar gais, ac efallai gael eu cyhoeddi, yn rhannol neu'n llawn, gan gynnwys ar wefan CNC a/neu wefan**


**JNCC. Bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Os na dymunwch i'ch enw na'ch barn ar y cynigion ACA neu AGA hyn fod yn gyhoeddus, cynghorir chi i beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Wrth ymateb, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol am eich hun neu bobl eraill yng nghorff eich sylwadau.**

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir



Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio



Lleoliad safleoedd ACA ac AGA arfaethedig Ionawr 2016
Location of proposed SACs and SPAs January 2016
Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig
Potential Special Protection Areas
1 Anglesey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn
2 Northern Cardigan Bay / Gogledd Bae Ceredigion
3 Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Benfro
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dan ystyriaeth
Possible Special Areas of Conservation
A North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol
B West Wales Marine / Cymru Gollewin Forol
C Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren
A
B
C
1
2
3
12 nm
12 nm
12 nm
0 10 20 40
Nm
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015 Arolwg Ordnans 100019741
© Crown copyright and database rights 2015 Ordnance Survey 100019741


Tud. 11